**CYD-BWYLLGOR ARBENNIG PARTNERIAETH**

**DYDD GWENER 19EG EBRILL 2024**

**Cyfarfod Rhithwir : 10:00 am - 10:43 am**

**CADEIRYDD:** Y Cynghorydd Glynog Davies - Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg (Cyngor Sir Caerfyrddin) (aelod â phleidlais)

| **Aelodau â Phleidlais** | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Robert Smith | Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu (Cyngor Sir Abertawe) |
| Y Cynghorydd Paul Miller (dirprwy) | Dirprwy Arweinydd (Cyngor Sir Penfro) |
| **Y Prif Weithredwr** | |
| Mr Martin Nicholls | Y Prif Weithredwr Arweiniol (Cyngor Sir Abertawe) |
| **Y Cyfarwyddwyr Addysg** | |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Caerfyrddin (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol) |
| Ms Helen Morgan-Rees | Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Y Cyfarwyddwr Arweiniol) |
| **Swyddogion** | |
| Mr Jonathan Haswell | Swyddog A151 Partneriaeth (Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro) |
| Ms Linda Rees Jones | Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin) |
| Mrs Sarah Edwards | Dirprwy Swyddog A151 (Cyngor Sir Penfro) |
| Mrs Michelle Evans-Thomas | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau) |
| Mrs Siwan Rees | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu) |
| Miss Rachel Morris | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu) |

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Guy Woodham (Cyngor Sir Penfro), William Bramble (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro), Wendy Walters (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd David Simpson (Arweinydd, Cyngor Sir Penfro), y Cynghorydd Darren Price (Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin) a'r Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd Cyngor Abertawe).

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i ddymuniadau gorau'r Cyd-bwyllgor gael eu mynegi i'r Cynghorydd Woodham am wellhad buan yn dilyn ei gyfnod o salwch yn ddiweddar.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. UNRHYW FATER ARALL Y DYLID EI YSTYRIED YM MARN Y CADEIRYDD YN FATER BRYS OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

**4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. ADOLYGIAD O SWYDDOGAETHAU A STAFFIO PARTNERIAETH**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod gan fod budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad uchod yn bwysicach na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn, gan y byddai gan ymgeiswyr ddisgwyliad rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw fudd cyhoeddus tra phwysig o ran datgelu gwybodaeth o'r fath.**

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad yn amlinellu trefniadau cydweithredu yn y dyfodol ar gyfer gwella ysgolion o fewn Partneriaeth ac yn manylu ar gynnig i ymgynghori ar strwythur staffio yn y dyfodol am gost is i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau er mwyn diwallu anghenion presennol ysgolion a'u dysgwyr, ac anghenion sy'n dod i'r amlwg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 bod gwaith ymgynghori â staff Partneriaeth ynghylch strwythur staffio newydd yn dechrau cyn gynted ag y bo modd, a fydd yn cael ei gynnal gan y Grŵp Strategol sy'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Addysg a Swyddog Arweiniol Partneriaeth;**

**4.2 bod cyllideb FY2024-2025 yn seiliedig ar gost o 5/12 ar gyfer y staffio presennol a chost o 7/12 ar gyfer y strwythur newydd, ar ôl ymgynghori.**

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**